



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Allwedd Band Eang Cymru

Ffurflen Gais

Mae copi o'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Os hoffech dderbyn y fersiwn Saesneg, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 0300 025 8887. Fel arall, mae'r ffurflen ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg ac yn Saesneg yn www.llyw.cymru/cyflymu

A copy of this document is available in English. If you would prefer to receive the English version of this document, we would encourage you to contact us on 0300 025 8887. Alternatively it is available to download in Welsh and English at www.gov.wales/broadband

Dim ond os na all gwasanaeth band eang y safle (os o gwbl) gynnig cyflymder lawrlwytho sydd o leiaf ddwywaith y cyflymder presennol y dylid llenwi'r ffurflen gais hon. Rhaid i'r gwasanaeth sydd dan sylw gennych gynnig cyflymder lawrlwytho o 10 Megabit yr eiliad o leiaf. Gweler y Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun i gael gwybod mwy.

Ysgrifennwch yn glir a thiciwch y blychau lle bo'n briodol.

Defnyddiwch deipsgript du neu inc du.

Gofalwch eich bod wedi darllen ein Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun.

Sicrhewch eich bod yn darllen ac yn deall y rhybudd preifatrwydd a phrosesu teg.

Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn darparu cymorth ar gyfer costau cymwys opsiynau band eang amgen. I gael cyllid, rhaid i'r safle allu rhoi tystiolaeth bod eu cyswllt band eang newydd, sy'n destun cymorth grant, yn darparu cyflymder lawrlwytho o 10 Megabit yr eiliad o leiaf.

Dylai ymgeiswyr posibl ystyried y gallai fod modd iddynt elwa ar delerau ac amodau mwy ffafriol unwaith y bydd opsiynau cystadleuol ar gael yn dilyn proses uwchraddio yn eu hardal o dan raglen Cyflymu Cymru.

Dylech ond wneud cais am grant o dan Allwedd Band Eang Cymru os ydych yn sicrh eich bod wedi dewis yr opsiwn sy'n gweddu orau i'ch anghenion chi dros dymor llawn eich rhwymedigaeth i'ch darparwr gwasanaeth.

Defnyddiwch y ddogfen ar feini prawf cymhwysedd ac amodau'r cynllun i'ch cynorthwyo i llenwi'r ffurflen hon.

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio ym mha gategori y mae eich cais

Aelwyd Unigol (Preswyl) – llenwch adrannau 1a, 2, 3a, 5, 6 a 7

Aelwyd Unigol (Preswyl) fel rhan o Gymuned – llenwch adrannau 1a, 1c, 2, 3a, 3b, 5, 6 a 7

Menter/Sefydliad 3ydd Sector (Busnes neu Grŵp Gwirfoddol) – llenwch adran 1b, 2, 3a, 4, 5, 6 a 7

Menter/Sefydliad 3ydd Sector (Busnes neu Grŵp Gwirfoddol) fel rhan o Gymuned – llenwch adrannau 1b, 1c, 2, 3a, 3b, 4, 5, 6 a 7

Rhif Cais y Prosiect:
At Ddibenion Swyddogol yn Unig

Adran 1 – Manylion Cyswllt

1a. Manylion cyswllt Ymgeisydd Unigol

Enw:	
Cyfeiriad (yn cynnwys cod post):	
Cyfeiriad e-bost (os oes un):	
A oes cysylltiad ffôn llinell dir i'r eiddo?	Oes Nac oes
Rhif ffôn y llinell dir	
Rhif ffôn arall neu rif ffôn symudol (os nad oes llinell dir)	

1b. Manylion cyswllt Menter/Sefydliad 3ydd Sector

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio ym mha gategori y mae eich cais	
Busnes gyda safle wedi'i leoli yng Nghymru Sefydliad 3ydd Sector/elusen gofrestredig gyda safle wedi'i leoli yng Nghymru	
Enw'r sefydliad:	
Enw Cyswllt:	
Cyfeiriad (yn cynnwys cod post):	
Cyfeiriad e-bost (os oes un):	
Gwefan y cwmni (os oes un):	
A oes cysylltiad ffôn llinell dir i'r eiddo?	Oes Nac oes
Rhif ffôn y llinell dir	
Rhif ffôn arall neu rif ffôn symudol (os nad oes llinell dir)	
A yw eich busnes wedi'i gofrestru at ddibenion TAW?	Ydy Nac ydy
Rhif cofrestrriad TAW:	
Rhif Cofrestru'r Busnes / Rhif Elusen Gofrestredig	

A yw eich busnes yn aelod o grŵp o Gwmnïau/Sefydliadau
3ydd Sector?

Ydy

Nac ydy

Enw a chyfeiriad y prif gwmni/sefydliad llywodraethu (neu unrhyw gwmni arall sy'n berchen
ar fwy na 25% o'r sefydliad)

Enw:	
Cyfeiriad (yn cynnwys cod post):	

1c. Manylion y Gymuned

Enw a lleoliad eich Cymuned

--

Manylion cyswllt Cydgysylltydd Prosiect y Cynllun Cymunedol

Enw:	
Cyfeiriad (yn cynnwys cod post):	
Cyfeiriad e-bost (os oes un):	
Rhif ffôn:	

Adran 2 – Manylion Gosod (I'w llenwi gan bob ymgeisydd)

Manylion gosod (yn cynnwys cod post) os yw'n wahanol i'r cyfeiriad yn Adran 1a neu 1b

Cyfeiriad gosod (yn cynnwys cod post):	
Cyfeiriad e-bost (os oes un):	
A oes cysylltiad ffôn llinell dir i'r eiddo?	Oes Nac oes
Rhif ffôn y llinell dir	
Rhif ffôn arall neu rif ffôn symudol (os nad oes llinell dir)	

Adran 3 – Manylion y Prosiect a Chostau

3a. I'w llenwi gan bob ymgeisydd.

Rwy'n cadarnhau na fydd hyd fy nghontract gwasanaeth ar gyfer fy nghysylltiad band eang yn llai na 12 mis. Ydw

Rwy'n cadarnhau nad ydw i'n bwriadu hawlio lwfansau cyfalaf am gostau'r cyfarpar. Ydw

Rwy'n cadarnhau bod y gwasanaeth rwyf wedi'i ddewis yn gallu darparu cyflymder lawrlwytho o 10 Megabit yr eiliad o leiaf. Ydw

Cytunwyd y bydd unrhyw gyfarpar band eang a osodir mewn perthynas â'r cais hwn am grant yn aros yn y safle ac nad oes modd ei drosglwyddo i rywle arall. Do

Noder: Ni all Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth tuag at gyfarpar cyfalaf os ydych chi'n hawlio lwfans cyfalaf amdano.

Caiff Unigolion, Mentrau a Sefydliadau 3ydd Sector ddewis Darparwr Gwasanaethau Rhynggrwyd neu gynnig darparwr sydd â'r gallu i fodloni gofynion y Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun.

3b. Ymgeiswyr Cymunedol yn unig

Rhaid i geisiadau cymunedol gyflwyno cynigion gan 3 Darparwr Gwasanaethau Rhynggrwyd gan nodi manylion y cyswllt a'r costau (gweler y Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun am gyfarwyddyd).

Enw'r Darparwr Gwasanaethau Rhynggrwyd a ddewisoch		
Enw cyswllt a rhif ffôn:		
Cyfeiriad (gan gynnwys cod post):		
Nifer yr Unigolion/Mentrau/Sefydliadau 3ydd Sector sy'n rhan o'r Gymuned	Nifer yr Unigolion	Nifer y Mentrau/Sefydliadau 3ydd Sector
Manylion ariannol y prosiect	Swm Net (£)	Swm TAW (£)
Cyfanswm cost y cynllun i'r gymuned		
Cost fesul ymgeisydd	Swm Net (£)	Swm TAW (£)

Adran 4 – Cymorth y Gymuned Ewropeaidd

I'w llenwi gan Fentrau/Sefydliadau 3ydd Sector YN UNIG

A yw eich Busnes/Sefydliad 3ydd Sector wedi derbyn unrhyw gymorth de minimis yn ystod y 3 blynedd diwethaf o ffynhonnell gyhoeddus (e.e. Adrannau'r Llywodraeth, eu hasiantaethau neu awdurdodau lleol) yn cynnwys cyllid o'r Gymuned Ewropeaidd?

Do

Naddo

Os gwnaethoch chi ateb 'do' rhestrwch y cymorth a dderbynioch isod.

Ni ddylai cyfanswm y cymorth de minimis a roddwyd i'ch menter yn y tair blynedd ddiwethaf fod yn uwch na'r terfynau uchaf yn y tabl isod. Mae 'Sector' yn cyfeirio at weithgarwch eich busnes ac nid diben y cymorth a roddwyd.

Sector	Terfyn de minimis
Cludiant ar y ffordd	€100,000
Amaethyddiaeth	€15,000
Pysgodfeydd	€30,000
Pob sector arall heblaw glo	€200,000

Ar gyfer pob achos newydd o gymorth de minimis, rhaid pennu cyfanswm y cymorth de minimis a dderbyniwyd gan eich busnes yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi derbyn y cymorth canlynol yn ystod y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf (h.y. y flwyddyn ariannol gyfredol a'r 2 flwyddyn ariannol flaenorol).

Dyddiad	Enw'r cynllun	Dyfarnwyd gan	Swm

Gallwch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen.

Adran 5 – Diogelu Data

Defnyddir y wybodaeth a rowch yn y ffurflen hon gan Lywodraeth Cymru i asesu eich cais am y Cynllun Allwedd Band Eang. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yn y ffurflen at ddibenion gweinyddol a rheoli, yn cynnwys cynnal gwiriadau, archwiliadau a gwaith marchnata priodol. Efallai y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth hon â sefydliadau cysylltiedig. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn hoffi defnyddio eich gwybodaeth i helpu i nodi gwasanaethau y gallem ni neu gwmnïau cysylltiedig eu cynnig ac a allai fod o ddiddordeb i chi.

Ni all Llywodraeth Cymru na'i staff fod yn gyfrifol am golledion yn deillio o gamau a roddir ar waith ar sail gwybodaeth gyffredinol a gyflwynwch. **Nid yw'r ffurflen gais yn cynrychioli unrhyw ffurf ar contract.**

Mae hawl gennych i ofyn am gopi o'r wybodaeth a gadwn amdano ac sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Diogelu Data 1998 (mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl bychan amdano), ac i gywiro unrhyw anghysonderau yn eich gwybodaeth.

Sicrhewch eich bod yn darllen ac yn deall y rhybudd preifatrwydd a phrosesu teg.

Rwy'n cytuno bod Llywodraeth Cymru'n cael trafod pob agwedd ar fy nghais gyda'r Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd rwyf wedi'i ddewis, os gwelir bod angen.

Ticiwch y blwch os nad ydych yn cytuno i hyn.

Adran 6 – Datganiad

Rhaid i bob Ymgeisydd ddarllen a llofnodi gweddill y ffurflen, gan roi'r dyddiad

Rwyf i, sy'n llofnodi fy enw isod, yn gwneud cais am gyllid i dalu costau'r prosiect uchod, ac eithrio fy nghyfraniad i, a hefyd rwy'n cydsynio i ganiatáu i Lywodraeth Cymru:

- Gynnal gwiriadau credyd yr ystyrir bod eu hangen ar gyfer asesu'r cais.
- Cael cyfle i ddefnyddio'r prosiect fel astudiaeth achos at ddibenion cyhoeddusrwydd.
- Rwy'n datgan bod y wybodaeth ar y ffurflen hon, ac unrhyw wybodaeth arall a gyflwynwyd i gefnogi'r cais, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.
- **Nid wyf wedi derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer band eang yn y gorffennol ac nid wyf wedi gwneud cais am gymorth ariannol gan unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r prosiect hwn, nid wyf yn bwriadu gwneud hynny ac nid wyf wedi cael cynnig cymorth o'r fath.**
- Rwy'n deall bod rhoi gwybodaeth anghywir neu fwriadol gamarweiniol yn drosedd ac y gallai gwybodaeth o'r fath gael ei defnyddio yn fy erbyn mewn ymchwiliad troseddol a allai ddilyn.
- Os ydw i wedi darparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn y cais hwn neu i gefnogi'r cais, yn cynnwys, lle bo'n briodol, ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw wybodaeth yn ymwneud â swm y 'cymorth de minimis' a dderbyniais, rwy'n deall y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r holl gyllid i Lywodraeth Cymru ar unwaith.
- Rwy'n deall y gallai'r wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon fod ar gael i adrannau/asiantaethau eraill ei gweld at ddibenion atal neu ganfod trosedd.
- Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gadarnhau fy nghysylltiad rhyngrwyd, drwy ymweld â mi, cyn cymeradwyo'r cais am gyllid.
- Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i archwilio unrhyw waith a gyflawnir o ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun cymorth hwn.
- Rwy'n deall bod yn rhaid i mi roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith am unrhyw newid yn yr amgylchiadau a allai effeithio ar y cais mewn perthynas â'r cynllun hwn.
- Rwy'n deall na all Llywodraeth Cymru ddarparu arian ar gyfer ceisiadau ôl-weithredol am waith gosod band eang ac felly rwy'n cadarnhau nad wyf wedi gosod band eang yn fy eiddo, nac wedi talu am waith o'r fath.

- **Ni all Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am unrhyw drafferthion sy'n codi gyda'm gwasanaeth band eang ar ôl i'r cyfarpar gael ei osod yn effeithiol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddiddymiad y darparwr gwasanaethau rhynggrwyd a ddewiswyd gennyf.**
- Rwy'n deall y byddaf yn gyfrifol am dalu'r tâl gwasanaeth misol a bennwyd mewn contract rhyngof â'r Darparwr Gwasanaethau Rhynggrwyd ac na fydd Llywodraeth Cymru'n rhan o'r contract hwnnw â darparwr y gwasanaeth.
- Rwy'n cytuno y caiff y grant am osod y band eang ei dalu i'r Darparwr Gwasanaethau Rhynggrwyd yn uniongyrchol ar fy rhan ac yn unol â gwerth y daleb.

Dylai Mentrau fod yn ymwybodol y gallai Llys Archwilwyr Ewrop archwilio unrhyw gorff neu berson sy'n rheoli neu'n derbyn cyllid cymunedol. Yn benodol, mae'n archwilio'r sefydliadau a'r cyrff cymunedol, yr awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a derbynwyr terfynol y cymorth cymunedol.

Ar gyfer Mentrau/Sefydliadau 3ydd Sector:

- Os ydw i'n methu â bodloni'r Meini Prawf Cymhwysedd De Minimis, rwy'n cydnabod y byddaf/byddwn yn gyfrifol am dalu'r pris llawn a fyddai fel arall yn daladwy mewn perthynas â'r gwasanaethau a dderbyniwyd.
- Rwy'n datgan nad ydym eisoes wedi derbyn cymorth sy'n fwy na'r terfynau de minimis uchaf dros y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf fel y nodwyd yn Adran 4 y ffurflen gais hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill cyfran briodol o enillion gwerthiant asedau y cyllidwyd eu pryniant yn wreiddiol gan y Cynllun Allwedd Band Eang. Os nad ydych yn bodloni telerau'r contract deuddeg mis, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill yr arian.

Nid yw cwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon yn gwarantu y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig yr arian i'r sawl sy'n gwneud cais amdano. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw ei disgresiwn wrth asesu pob un o'r ceisiadau. Mae'n cadw'r hawl i newid unrhyw elfen o'r cynllun, yn cynnwys y meini prawf cymhwysedd, ar unrhyw adeg heb rybudd pellach, a'r hawl i ddod â'r cynllun i ben ar unrhyw adeg heb rybudd pellach.

Rhowch un llofnod yn achos cais gan unigolyn – yr ymgeisydd

Rhowch un llofnod yn achos Menter – cyfarwyddwr

Rhowch un llofnod yn achos unig fasnachwr – perchennog

Rhowch un llofnod yn achos Sefydliad 3ydd Sector – ymddiriedolwr

- Rwy'n deall y gallai prosiect Cyflymu Cymru fod o fudd i'm heiddo yn ystod oes y contract yr wyf yn derbyn cymorth grant ar ei gyfer. Gallai Cyflymu Cymru gynnig dewis ehangach o Ddarparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd i mi, ac efallai y byddaf yn elwa ar delerau ac amodau mwy ffafriol unwaith y bydd yr opsiynau cystadleuol hyn ar gael. Ond rwyf yn hapus i barhau gyda'm gwasanaeth presennol, a ariennir gan ABC, nes i'm rhwymedigaethau mewn perthynas â'r grant ddod i ben.
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen ac yr wyf yn fodlon gyda'r wybodaeth a geir yn y Rhybudd Preifatrwydd Rheoleiddio Gwarchod Data Cyffredinol.
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a chytuno i'r telerau a nodir yn y Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun, sydd ar gael mewn dogfen ar wahân yn www.llyw.cymru/cyflymu
- Rwy'n cydnabod bod yn rhaid i unrhyw gyfarpar a osodir drwy'r cynllun talebau aros yn y safle lle caiff ei osod ac nad oes modd ei symud i rywle arall.

Llofnod	
Enw llawn (priflythrennau)	
Dyddiad:	
Teitl:	

Rhaid llenwi pob adran o'r ffurflen gais hon fel y nodwyd.

Adran 7 – Rhestr wirio

Cyn i chi anfon eich ffurflen ticiwch y blychau isod i sicrhau eich bod wedi cynnwys pob dogfen angenrheidiol ar gyfer eich cais

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen ac yr wyf yn fodlon gyda'r wybodaeth a geir yn y Rhybudd Preifatrwydd Rheoleiddio Gwarchod Data Cyffredinol.

1 dyfynbris cyflenwr gan ddarparwr gwasanaeth ar bapur â phennawd yn dangos enw'r cwmni (ar gyfer ceisiadau unigolion).

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall yr Hysbysiad Preifatrwydd a Phrosesu Teg a atodir ar ddiwedd y ffurflen gais hon.

(Ceisiadau Cymunedol yn unig) Mae'r Arweinydd Cymunedol wedi cynnig gan 3 chynnig gan Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd.

Cofiwch:

NI DDYLECH ymrwymo i gontract gyda'ch Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd tan y byddwch chi wedi derbyn, llofnodi a dychwelyd eich llythyr cynnig arian i Lywodraeth Cymru.

Bydd unrhyw waith gosod a gyflawnir cyn hyn yn gwneud y cais yn un ôl-weithredol. Ni all Llywodraeth Cymru gefnogi ceisiadau ôl-weithredol.